## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **Ddydd Llun 20 Ionawr 2025** yn rhithiol dros **Zoom.** Dechreuodd am **09.30.**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Cunningham (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Chris Hughes (o 09:48) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |
| Rob Triggs | Cyngor Gwynedd |
| Antony Wren | Cyngor Sir y Fflint |
| Mark Young | Cyngor Sir Ddinbych |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Stuart Millington | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Elgan Roberts | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Tracey Williams | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| George Jones | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |

**YN ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Michelle Walker | Cyngor Sir Ddinbych |

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A GYNHALIWYD AR 21 HYDREF 2024**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2024 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion yr ATA o 21 Hydref 2024 fel cofnod cywir a gwir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Mewn perthynas ag eitem 7.3, adolygiad y Prif Gynghorydd Tân ac Achub o dechnegau diffodd tân, dywedodd y Prif Swyddog Tân fod yr adolygiad o fewn Gogledd Cymru bellach wedi dechrau gydag ymchwil gwaith maes yn dechrau ar 27 Ionawr. Rhagwelwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi rhywbryd yn ystod mis Chwefror.

5.2 Mewn perthynas ag eitem 7.6 lle trafodwyd y newidiadau i'r model llywodraethu ar gyfer tri Awdurdod Tân ac Achub (ATA) Cymru, nododd y Prif Swyddog Tân (PST) fod hon yn sefyllfa fwy dybryd yn Ne Cymru gan y byddai angen i'r Gwasanaeth wybod beth fyddai'n cael ei gyflwyno yn dilyn diddymu’r Comisiynwyr. Byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn ymgynghori ar opsiynau posibl a byddai'n gofyn am farn yng Ngwanwyn 2025.

5.3 O ran eitem 7.8, yr hysbysiad bod y Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) wedi penderfynu ymddeol, dywedwyd wrth yr Aelodau ei fod wedi tynnu'r ymddiswyddiad hwnnw yn ôl ers hynny, ac roedd y PST yn falch o'i groesawu'n ôl. Fodd bynnag, roedd dau aelod pwysig iawn o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi cyhoeddi ers hynny y byddent yn gadael - roedd y Rheolwr Ardal Justin Evans, a oedd wedi gweithredu fel Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) am y flwyddyn ddiwethaf, wedi penderfynu ymddeol ddiwedd mis Mawrth ac roedd Tracey Williams, Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol am 15 mlynedd, hefyd wedi penderfynu symud ymlaen i bennod nesaf ei gyrfa. Diolchodd y PST i'r ddau am eu gwaith caled a'u hymroddiad drwy gydol eu hamser gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

5.4 Rhoddodd y DBST ddiweddariad ar Eitem 9, Achos Busnes y Ganolfan Hyfforddi Newydd, a dywedodd wrth yr Aelodau, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, fod Bwrdd Prosiect Canolfan Hyfforddi yn cael ei sefydlu a bod datganiadau o ddiddordeb wedi cael eu gwahodd gan Aelodau i ddod yn Aelodau Arweiniol ar gyfer y prosiect. Roedd y Cynghorydd Gareth Sandilands wedi rhoi ei enw ymlaen ac wedi bod yn llwyddiannus. Roedd y cyfarfod cyntaf i gael ei gynnal ar 27 Ionawr. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Sandilands a dywedodd ei fod yn sicr y byddai'r Cynghorydd Sandilands yn dod â gwerth mawr i fwrdd y prosiect.

5.5 Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Antony Wren, Aelod newydd Cyngor Sir y Fflint, i'r cyfarfod.

**6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau i roi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau y bu Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod ynddynt yn eu capasiti swyddogol rhwng Hydref a Rhagfyr 2024.

6.2 Nododd y Cadeirydd fod aelodau'r Gwasanaeth Tân wedi bod yn allweddol wrth helpu'r rhai yr effeithiwyd arnynt yn sgil y ffaith bod y brif bibell ddŵr wedi byrstio yng ngwaith dŵr Bryn Cowlyd. Gofynnodd i'w ddiolch gael ei drosglwyddo i bawb dan sylw a theimlai ei bod yn bwysig nodi'r amrywiaeth eang o wasanaethau a gyflawnir gan aelodau'r Gwasanaeth Tân.

6.3 Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd wrth yr Aelodau am y newyddion trist fod Brian Gorling, cyn Ddiffoddwr Tân o Fae Colwyn, wedi marw a gofynnwyd i'r Aelodau a allai rhywun fod yn bresennol i gynrychioli'r Awdurdod yn ei angladd.

6.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth a roddwyd yn y papur.**

## 7 DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL

7.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân adroddiad cynnydd i'r Aelodau ar yr adolygiad diwylliannol a gomisiynwyd gan y cwmni ymgynghori annibynnol Crest Advisory ym mis Gorffennaf 2024.

7.2 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r adroddiad yn debygol o gael ei gyhoeddi ddiwedd Ionawr/ddechrau mis Chwefror gan fod gwaith yn dal i fynd rhagddo i gwblhau'r manylion a chyfieithu'r adroddiadau.

7.3 Cymerodd tua thraean o'r staff ran yn yr arolygon a'r cyfweliadau, tua 300 o blith 1000 o weithwyr. Ni fu unrhyw achosion unigol o rywiaeth na hiliaeth; fodd bynnag, roedd themâu ynghylch arddull arweinyddiaeth yr oedd y Gwasanaeth eisoes yn ymwybodol ohonynt ac a oedd yn cael sylw ac roedd staff yn cael eu haddysgu nad oedd yr arddull rheoli a allai fod wedi bod yn briodol flynyddoedd yn ôl yn briodol heddiw.

7.4 Roedd cydnabyddiaeth bod y diwylliant wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd staff yn falch o weithio i'r Gwasanaeth. Roedd Undeb y Brigadau Tân wedi mynegi eu hawydd i gefnogi'r Gwasanaeth ar ei daith ddiwylliannol, ac roeddent yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith mai buddiannau gorau'r Gwasanaeth a'i weithwyr oedd yn bwysig iddynt, a'u bod yn edrych ymlaen at weithio'n gadarnhaol gyda'r Gwasanaeth ar ei daith ddiwylliannol.

7.5 Nododd y Cadeirydd ei bod yn anodd gwneud sylwadau gwybodus heb weld yr adroddiad; fodd bynnag, dywedodd nad oedd yn cefnogi'r ail argymhelliad gan ei fod yn teimlo y dylid caniatáu i bob Aelod fynd i gyfarfod gyda Crest Advisory. Cefnogodd yr Aelodau y datganiad hwn, a newidiwyd yr argymhelliad yn unol â hynny.

7.6 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Nodi cynnydd yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol a'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi sydd yn yr adroddiad; a**
- **ii) chytuno y dylid gwahodd holl Aelodau'r Awdurdod i weminar gyda Crest i drafod canfyddiadau'r adolygiad a'r argymhellion ar gyfer y dyfodol.**

## 8 ALLDRO DROS DRO 2024-25

8.1 Cyflwynodd Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael, yr Alldro Dros Dro ar gyfer 2024-25 a oedd yn anelu at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y rhagolygon gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25, ar 31 Rhagfyr 2024.

8.2 Tynnwyd sylw at baragraff 13 y papur a nodwyd bod eglurder ynghylch y dyfarniad cyflog bellach wedi'i dderbyn. Roedd dyfarniad cyflog o 4.5% wedi'i gyllidebu ar gyfer aelodau o staff llywodraeth leol, a chadarnhawyd bellach bod staff ar bwyntiau cyflog 2 i 43 wedi cael cynnydd o ychydig o dan £1,300, gyda staff ar bwyntiau cyflog 44 ac uwch yn cael 2.5%. Roedd hyn wedi arwain at bwysau cost bychan a oedd yn cael ei drin yn fewnol.

8.3 Yn seiliedig ar wariant y flwyddyn hyd yma, roedd y rhagolwg blwyddyn lawn mwyaf tebygol ar ddiwedd mis Rhagfyr yn dangos tanwariant o ychydig dros £0.5m. Roedd ystod yn y sefyllfa alldro yn sgil yr her gyfreithiol barhaus mewn perthynas â Firelink, a allai leihau costau yn ystod y flwyddyn oddeutu £0.5m; fodd bynnag, gan nad oedd yn sicr y byddai hyn yn cael ei ddatrys erbyn diwedd y flwyddyn, byddai cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi yn cael ei sefydlu.

8.4 Gofynnodd Aelod sut y byddai arian y gofynnwyd amdano drwy'r ardoll ond nad oedd ei angen yn cael ei ddychwelyd i'r Awdurdodau Lleol, ac ymatebodd PSTC MacArthur na fyddai'r arian yn cael ei ddychwelyd, ond y byddai'n cael ei roi mewn cronfeydd wrth gefn i dalu costau yn y dyfodol mewn perthynas â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys y rhagwelir y bydd y momentwm yn ei gylch yn cyflymu dros y blynyddoedd sydd i ddod ac yn arwain at rwymedigaethau refeniw a chyfalaf er mwyn ei weithredu.

8.5 Gofynnodd Aelod a oedd pwysau cost yn cael ei greu oherwydd diffyg 30 aelod o staff yn y System Dyletswydd ar Alwad, ac a fyddai hyn yn cael ei leddfu pe bai'n cael ei gyllidebu. Eglurodd y Pennaeth Cyllid fod y gofyniad ychwanegol wedi'i ostwng o 30 i 15 a bod hyn eisoes wedi'i gyllidebu.

8.6 Holwyd ymhellach a oedd costau goramser wedi'u cyllidebu a chadarnhaodd PSTC MacArthur fod y sefydliad o amgylch staff amser cyflawn wedi'i gyllidebu'n llawn a bod goramser yn cael ei reoli o fewn hyn, er nad yw'n hollol niwtral o ran cost. Gofynnwyd i ragor o ffigurau ynghylch hyn gael eu darparu mewn cyfarfod diweddarach.

8.7 **PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi'r sefyllfa alldro refeniw a ragwelir a'r llithriad cyfalaf a ragwelir ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, fel y nodir yn yr adroddiad;**
- **ii) nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r alldro dros dro a chydnabod bod y ffigurau a ragwelir yn yr adroddiad hwn yn ddarbodus; a**
- **iii) nodi'r symudiad arfaethedig o £0.070m i'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer llithriad ar wariant nad yw'n gysylltiedig â thâl ac sy'n ymwneud ag offer gweithredol.**

## 9 ADOLYGIAD O'R DDARPARIAETH FRYS

9.1 Cyflwynodd y PSTC Anthony Jones ddiweddariad i'r Aelodau ar waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a sefydlwyd mewn ymateb i'r penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 18 Rhagfyr 2023. Pwrpas y grŵp hwn oedd ymchwilio a datblygu opsiwn parhaol newydd i wella'r ddarpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

9.2 Pwysleisiodd y PST fod y berthynas waith gyda'r holl gyrff cynrychioliadol, gan gynnwys Undeb y Brigadau Tân, yn dda iawn ac roedd y gweithgor, ar ôl gwneud cymaint o waith, yn deall na fyddai'r modelau oedd yn cael eu hystyried yn gweithio gyda'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael yng Ngogledd Cymru. Felly, yn hytrach na gwastraffu mwy o amser, roedd Undeb y Brigadau Tân wedi penderfynu tynnu'n ôl, ond roeddent wedi mynegi'r ffaith eu bod yn awyddus iawn i barhau i archwilio opsiynau eraill.

9.3 Cadarnhaodd y Cadeirydd ymhellach fod cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân wedi ymroi'n llawn i'r broses o weithio gyda swyddogion i ddod o hyd i ateb a'u bod yn parhau i roi eu barn eu hunain ynghylch sut y gallai hyn weithio. Nododd ymhellach fod yn rhaid dod o hyd i ateb cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau'r risg i aelodau'r gymuned.

9.4 Teimlai'r Aelodau yn dawelach eu meddyliau yn dilyn y diweddariadau llafar uchod; fodd bynnag, gofynnodd un Aelod a oedd dyddiad cau wedi'i osod. Ymatebodd PSTC Jones y byddai cyfarfod o'r gweithgor yn cael ei gynnal ar 21 Ionawr, ac roedd pawb a oedd yn rhan o hyn yn awyddus i ddod i gytundeb cyn gynted â phosibl. Byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal bob chwe wythnos a'r gobaith oedd y byddai'r grŵp nesaf yn dod i gytundeb ym mis Chwefror neu os ddim, yn y cyfarfod canlynol.

9.5 Cynigiodd Aelod y dylid ychwanegu argymhelliad ychwanegol bod yr Aelodau'n cefnogi gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i weithio tuag at opsiwn ymarferol. Cafodd y cynnig hwn ei eilio.

9.6 Nododd Aelod arall fod y broses hon eisoes wedi cymryd dwy flynedd, a'i bod yn siomedig nad oedd datrysiad wedi'i gyrraedd eto.

9.7 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda staff a chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu modelau ymchwil dau a thri Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, neu amrywiadau arnynt;**

**ii) nodi'r casgliad y cytunwyd arno, sef na fydd y system ddyletswydd pum gwylfa yn gweithio yng Ngogledd Cymru ac, o ganlyniad, bod Undeb y Brigadau Tân wedi tynnu'n ôl a bod y grŵp gorchwyl a gorffen wedi dod i ben;**

**iii) Gwerthfawrogi ymdrechion a chyfraniad Aelodau Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;**

**iv) Gofyn i swyddogion barhau i lunio a phrofi atebion amgen gyda'r cyrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, i fynd i'r afael â'r ddarpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig; a**

**v) Chefnogi Gweithgor yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys i weithio tuag at opsiwn sy'n ymarferol.**

## 10 PENNU CYLLIDEB 2025-26

10.1 Cyflwynodd y PSTC Helen MacArthur bapur Pennu Cyllideb 2025-26, gyda'r nod o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr asesiad cynllunio ariannol cyfredol i bennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26, a cheisio cymeradwyaeth i gadarnhau'r ardoll ddangosol gydag awdurdodau lleol cyfansoddol.

10.2 Diolchodd y Trysorydd i'r PSTC MacArthur a phawb oedd yn ymwneud â phennu'r gyllideb. Rhoddodd rywfaint o gyd-destun hefyd, sef bod sawl cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ar y Gyllideb wedi cael eu cynnal, a bod gwaith manwl allweddol wedi'i wneud yn y cyfarfodydd hyn, gyda chydbwysedd priodol yn cael ei gyrraedd. Gofynnodd i'r Aelodau nodi na fu unrhyw newidiadau sylweddol yn y ffigurau ers cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr lle'r oedd yr Aelodau wedi cytuno i argymell y gyllideb i'r Awdurdod llawn.

10.3 Cadarnhaodd y Cadeirydd fod cyfarfod ar-lein wedi cael ei gynnal yn ddiweddar gydag Arweinwyr a Phrif Weithredwyr y chwe awdurdod lleol a'u bod wedi cadarnhau na fu unrhyw bethau annisgwyl yn y gyllideb a roddwyd. Roeddent wedi diolch i'r PSTC MacArthur am ei gohebiaeth reolaidd â Swyddogion Adran 151 yn hyn o beth.

10.4 Dywedodd un Aelod ei fod yn teimlo ei bod yn siomedig nad oedd y dyraniad a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru drwy'r fformiwla yn cyfateb i'r arian yr oedd ei angen drwy'r ardoll i'r Awdurdod. Nodasant ymhellach mai'r cynnydd mwyaf oedd i Wynedd, a oedd yn ail olaf yn y dyraniadau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

10.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26;**
**ii) nodi'r asesiad cynllunio ariannol presennol, sef gofyniad cyllideb o £52.389m ar gyfer 2025/26;**
**iii) nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.601m o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2025/26; a**
**iv) chymeradwyo rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddrafft o £51.788m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.**

**11 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU – CYFRADDAU CYFRANIAD GWEITHWYR AR GYFER CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN**

11.1 Cyflwynodd y PSTC Helen MacArthur Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i'r Aelodau - papur ar gyfraddau cyfraniadau gweithwyr ar gyfer cynllun pensiwn y diffoddwyr tân, a oedd yn rhoi gwybodaeth am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar newidiadau arfaethedig i gyfraddau cyfraniadau gweithwyr ar gyfer cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yng Nghymru.

11.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cefndir ymgynghoriad Llywodraeth Cymru; a**
**ii) chymeradwyo'r ymateb sydd i'w gyflwyno ar ran yr Awdurdod.**

**12 ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT 2023-2024**

12.1 Cyflwynodd DBST Stewart Forshaw bapur Asesiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023-2024, a oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r asesiad blynyddol o berfformiad yr Awdurdod yn ystod 2023/24.

12.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r asesiad blynyddol o berfformiad yr Awdurdod yn 2023/24 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; a**
**ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn cryno syml o elfennau allweddol yr adroddiad asesu.**

**13 CYNLLUN DATGARBONEIDDIO PŴER**

13.1 Cyflwynodd PSTC Stuart Millington y Cynllun Datgarboneiddio Pŵer a oedd yn nodi manylion Cynllun Datgarboneiddio Pŵer y Gwasanaeth (y Cynllun), a oedd yn rhoi mesurau ac amserlenni manwl i liniaru'r allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd trydan fflyd ac ystad y Gwasanaeth am y cyfnod hyd at 2030.

13.2 Diolchodd y Cadeirydd i Tim Christensen am ei waith caled yn y maes hwn.

13.3 Rhoddodd Aelod glod i ansawdd y gwaith a wnaed ac argymhellodd i'r penderfyniadau gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r Cynllun Datgarboneiddio Pŵer.**

**14 CYNLLUN ALLYRIADAU CARBON GWEDDILLIOL**

14.1 Cyflwynodd PSTC Stuart Millington y Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol i'r Aelodau, a oedd yn nodi manylion Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol y Gwasanaeth (y Cynllun), gan roi mesurau ac amserlenni manwl i liniaru'r allyriadau carbon hynny nad oedd y Cynlluniau Datgarboneiddio a oedd ar waith ar gyfer y Fflyd, Gwresogi a Phŵer am y cyfnod hyd at 2030 wedi eu lliniaru.

14.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r Cynllun Allyriadau Carbon Gweddilliol; a**
**ii) chyfarwyddo Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd i ddechrau gweithredu'r Cynllun pan fydd yr holl allyriadau carbon sy'n deillio o dan Gwmpas 1 a 2 wedi'u lliniaru'n llawn, ac nid cyn hynny.**

**15 MATERION BRYS**

15.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

**Daeth y cyfarfod i ben: 10:44**